# Canlyniadau arholiadau mewn ysgolion yng Nghymru, 2017/18 (dros dro): Nodiadau

## Cael gafael ar y data yn electronig

Mae'r data y tu ôl i rai o'r siartiau a'r tablau yn y datganiad hwn i'w gweld ar wefan StatsCymru (gwasanaeth rhad ac am ddim sy'n caniatáu i bobl weld, golygu, creu a llawrlwytho tablau a siartiau).

Mae rhagor o ddata am y tablau hyn ar gael ar gais; anfonwch e-bost i ystadegau.ysgolion@llyw.cymru.

Fe fydd y data terfynnol yn cael ei gyhoeddi ar Fy Ysgol Leol yn Ionawr 2019.

## 1. Cyd-destun

### 1.1 Cyhoeddiadau cysylltiedig

Mae data ar gyfer Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban ar gael yn y dolenni isod. Noder bod y data a gynhyrchir gan y gweinyddiaethau hyn yn seiliedig ar y disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4, ond rydym ni'n cyhoeddi ar sail disgyblion ym Mlwyddyn 11. Yn dilyn y newidiadau i lefelau cymwysterau, cyfwerthedd cymwysterau, diystyru a rheolau ail-dderbyn yn Lloegr yn 2014, nid yw gwneud cymariaethau â Lloegr yn bosibl mwyach – gweler adran 5.5 hefyd. Ni ellir gwneud cymariaethau â'r Alban oherwydd bod eu system arholiadau a chymwysterau'n wahanol.

I gael rhagor o wybodaeth neu gyngor ar y cyfyngiadau ar gymariaethau rhyngwladol, anfonwch e-bost at ystadegau.ysgolion@llyw.cymru.

Er gwybodaeth, gellir gweld canlyniadau arholiadau ar gyfer gwledydd eraill y DU ar gael trwy ddilyn y dolenni isod:

**Lloegr**

GCSE and Equivalent Results in England 2015/16

A-Level and other Level 16 Results in England 18/2015 (Revised)

**Gogledd Iwerddon**

Qualifications and Destinations of Northern Ireland School Leavers 2015/16

**Yr Alban**

Summary statistics for attainment, leaver destinations and healthy living, No.7: 2017 Edition

Rydym hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth am asesiadau athrawon mewn pynciau craidd a phynciau nad ydynt rhai craidd yn y cyfnod sylfaen ac yng nghyfnodau allweddol 2 a 3, sydd i'w gweld yma: [Ystadegau ac Ymchwil]

Mae'r ffigurau'n wahanol i'r rheini a gyhoeddwyd gan y Cyrff Dyfarnu ym mis Awst. Mae ffigurau'r Cyrff Dyfarnu'n ymwneud â chanlyniadau'r meysydd pwnc unigol ar gyfer pob ymgeisydd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, waeth beth yw eu hoedran. Mae'r ffigurau a gyhoeddwyd yn y datganiad hwn yn canolbwyntio ar berfformiad cyffredinol yr ymgeiswyr ym Mlwyddyn 11/15 oed a'r ymgeiswyr 17 oed sy'n sefyll yr arholiadau hyn yng Nghymru yn unig. Mae'r ffigurau hyn i'w cael yma: [Gwefan JCQ]

## 2. Ffynhonnell y data

Caiff yr ystadegau hyn eu casglu gan nifer o gyrff dyfarnu dros yr haf. Mae'r cyrff dyfarnu canlynol wedi darparu data ar gyfer y datganiad hwn:

ABC Awards, Agored Cymru, AQA, ASDAN, Associated Board of the Royal Schools of Music (ABRSM), British Computer Society (BCS), British Safety Council (BSC), CACHE, City and Guilds, CCEA, Cambridge International Examinations (CIE), Chartered Institute of Environmental Health (CIEH), C Skills, EMTA Awards Ltd (EAL), ILM, IMI Awards Ltd (IMIAL), LIBF), NCFE, National Open College Network (NOCN), OCR, Pearson (Edexcel/EDI), Prince's Trust, Rock School Ltd (RSL), Sports Leaders UK, VTCT, CBAC.

## 3. Diffiniadau

### 3.1 Cwmpas

Mae'r ystadegau yn y datganiad hwn yn cynnwys yr holl ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol yng Nghymru. Dim ond y canlyniadau ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 11 a disgyblion 17 oed a dderbyniwyd gan y cyrff dyfarnu a restrir uchod sydd wedi'u cynnwys. Mae arholiadau a gymerwyd yn gynharach yn cael eu cynnwys hefyd. Bydd unrhyw arholiadau a gyflawnwyd cyn bod y disgybl ym Mlwyddyn 11 yn cael eu cadw yn ôl a'u cynnwys yn y flwyddyn ysgol y mae'r disgybl dechrau ym Mlwyddyn 11. Noder bod yr wybodaeth yn y datganiad hwn yn ymwneud â phob ysgol ar gyfer ffigurau Cymru.

Dim ond cymwysterau a ddyfarnwyd hyd at 31 Awst sy'n cael eu cynnwys. Nid yw dyfarniadau newydd ar ôl y dyddiad hwn, ac unrhyw ailsefyll neu ail-farcio ar ôl y dyddiad hwnnw, yn cael eu cynnwys.

Hyd at 2005/06, mae'r ystadegau'n cynnwys TGAU, cyrsiau byr TGAU, GNVQ ac NVQ yn unig. O 2006/07, mae'r ystadegau'n cynnwys pob cymhwyster a gymeradwywyd ar gyfer disgyblion cyn-16, neu 16-18 oed yng Nghymru. Mae cyflwyno'r diffiniad ehangach wedi golygu cynnwys ystod ehangach o gymwysterau, ac felly cynnydd yn y prif ddangosyddion perfformiad. [Ceir esboniad o'r gwahanol fathau o gymwysterau yma.]

## 3.2 Lefelau trothwy a phwyntiau

Cafodd dangosyddion yn dangos cyfwerthedd ar sail trothwy eu cyhoeddi (fel dangosyddion dros dro) am y tro cyntaf yn 2007, a'r rhain bellach yw'r prif ddangosyddion perfformiad mewn ysgolion uwchradd. Mae trothwyau yn cynrychioli cyfres neu 'faint' o gymwysterau ar lefel benodol yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FfCC). Mae tri throthwy wedi'u sefydlu:

- Lefel 1 – cyfres o gymwysterau ar Lefel 1 sydd gyfwerth â phum TGAU gradd A*-G;
- Lefel 2 – cyfres o gymwysterau ar Lefel 2 sydd gyfwerth â phum TGAU gradd A*-C;
- Lefel 3 – cyfres o gymwysterau ar Lefel 3 sydd gyfwerth â dwy Safon Uwch gradd A*-E.

Cyfrifir y sgôr 'Cap 9' gan ddefnyddio'r 9 canlyniad gorau ar gyfer pob disgybl, gyda gofynion penodol i bynciau yn Gymraeg/Saesneg, Mathemateg, Mathemateg-Rhifedd a Gwyddoniaeth. Mae rhagor o wybodaeth am sut y cyfrifir y sgôr pwyntiau wedi'i chapio yma.

## 3.3 Diystyru

Mae arholiad yn cael ei ddiystyru pan fydd disgybl yn cyflawni gradd uwch neu gymhwyster lefel uwch yn yr un grŵp pwnc. Os yw cymhwyster yn cael ei ddiystyru, nid yw'n cyfrif tuag at yr ystadegau a gyhoeddwyd yn y datganiad hwn, neu yn unrhyw ystadegau swyddogol eraill a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn diystyru cymwysterau tebyg yn y grwpiau pwnc canlynol:

**Grŵp 1:** Cymwysterau mynediad, cyrsiau byr TGAU, TGAU llawn, TGAU galwedigaethol dyfarniad dwbl

**Grŵp 2:** Safon UG, Safon UG galwedigaethol dyfarniad dwbl, Safon Uwch, Safon Uwch galwedigaethol dyfarniad dwbl, Tystysgrif Addysg Alwedigaethol Safon UG, Tystysgrif Addysg Alwedigaethol Uwch, Tystysgrif Addysg Alwedigaethol Uwch dyfarniad dwbl

**Grŵp 3:** Cymwysterau mathemateg annibynnol

**Grŵp 4:** Sgiliau allweddol

**Grŵp 5:** Dyfarniad mewn Cymwysiadau Digidol (AiDA), y Dystysgrif mewn Cymwysiadau Digidol (CiDA), y Dystysgrif Estynedig mewn Cymwysiadau Digidol (CiDA +) a'r Diploma mewn Cymwysiadau Digidol (DiDA).

**Grŵp 6:** NVQs

**Grŵp 7:** BTEC a chymwysterau eraill

**Grŵp 8:** Bagloriaeth Cymru

## 3.4 Performance of pupils eligible for FSM

Ers 2014/15, rydym wedi cynnwys tabl (Tabl 3a) yn y datganiad hwn sy'n dangos y prif ddangosyddion ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 yn ôl hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mewn blynyddoedd blaenorol, cyhoeddwyd y data hwn ym mis Ionawr neu fis Mawrth fel rhan o'r datganiad canlynol.

O eleni ymlaen, mae data lefel pwnc ar gyfer disgyblipn PYD ar gael yn nhadlau 3b a 3c.

Mae'r adroddiad 'Ailysgrifennu'r Dyfodol', a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2014, yn defnyddio canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n cyflawni ystod o fesurau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 fel un o'r dangosyddion perfformiad allweddol. Mae'r data yn Nhabl 3a yn y datganiad hwn.

### 3.5 Newidiadau yn y datganiad hwn

**Gwyddoniaeth Galwedigaethol:**

O 2017/18 ymlaen nid yw cymwysterau galwedigaethol gwyddoniaeth yn cyfri tuag at yr elfen gwyddoniaeth o'r rhai o'r mesurau perfformiad. Mae hyn yn cynnwys y sgôr pwyntiau 9 wedi'i gapio a lefel 2 gwyddoniaeth.

**Sgôr 'Cap 9':**

Mae'r mesur 'Cap 9' yn ffocysu ar ganlyniadau disgyblion Blwyddyn 11 ar gyfer naw o'r cymwysterau sydd ar gael yng Nghymru, gan gynnwys gofynion penodol i bynciau. Mae'r mesur hwn yn cydnabod perfformiad ac yn dyrannu pwyntiau ar draws y sbectrwm cyfan o raddau er mwyn adlewyrchu lefelau cyrhaeddiad pob dysgwr yng Nghymru. Mae'r prif newidiadau i'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio fel a ganlyn:

- Cynnydd o *wyth* i *naw* TGAU neu gyfaint cyfwerth o gymwysterau
- Cyflwyno gofynion cyrhaeddiad penodol i bwnc
    1. Saesneg / Cymraeg
    2. Mathemateg-Rhifedd
    3. Mathemateg
    4. 2 x Gwyddoniaeth.

Mae dadansoddiad o'r sgôr 'Cap 9' hwn ac esboniad o'r dull a ddefnyddiwyd i'w chyfrifo ar gael yma.

**Manylebau newydd yn Gymraeg, Saesneg a Mathemateg / Mathemateg-Rhifedd:**

Mewn mesurau perfformiad ysgolion eleni, caiff manylebau newydd yn Gymraeg a Saesneg eu defnyddio, ynghyd â'r TGAU Mathemateg newydd a'r TGAU Mathemateg-Rhifedd. Dim ond y manylebau newydd ar gyfer TGAU Saesneg Iaith, TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf, TGAU Mathemateg-Rhifedd a TGAU Mathemateg fydd yn cyfrif tuag at elfennau llythrennedd a mathemateg y sgôr 'Cap 9' newydd. Ni fydd y cymwysterau etifeddol yn cyfrif tuag at yr elfennau llythrennedd a mathemateg, ac ni fydd cymwysterau Llenyddiaeth bellach yn cyfrif tuag at yr elfennau llythrennedd.

Yn ogystal, dim ond y manylebau newydd ar gyfer TGAU Saesneg Iaith, TGAU Cymraeg Iaith, a TGAU Mathemateg/Mathemateg-Rhifedd fydd yn cyfrif tuag at elfennau llythrennedd a mathemateg y mesur trothwy Lefel 2 cynwysedig. Ni fydd hen fanyleb TGAU Mathemateg yn cyfrif tuag at elfen fathemateg y mesur Lefel 2 Cynwysedig. Nid yw cymwysterau llenyddiaeth yn cyfrif tuag at yr elfennau llythrennedd o 2017 ymlaen. Mae'r tabl isod yn dangos effaith newid y

dangosydd Lefel 2 cynwysedig fel nad yw bellach yn cynnwys Llenyddiaeth Saesneg na Chymraeg yn yr elfen llythrennedd:

| Blwyddyn | Canran y disgyblion a gyflawnodd y trothwy lefel 2 cynhwysol (ac eithrio llenyddiaeth Saesneg/Cymraeg yn yr elfen llythrennedd) (a) | Canran y disgyblion a gyflawnodd y trothwy lefel 2 cynhwysol (yn gynnwys llenyddiaeth Saesneg/Cymraeg yn yr elfen llythrennedd) (a) | Gwahaniaeth (pwyntiau canran) |
|---|---|---|---|
| 2016/17 | 54.6 | 56.4 | -1.8 |
| 2017/18 (p) | 55.1 | 56.5 | -1.4 |

(a) yn cynnwys cap o 40% ar gymwysterau nad ydynt yn TGAU

Bydd yr hen fanylebau TGAU yn Saesneg, Cymraeg a Mathemateg yn cyfrif tuag at y gofynion cyffredinol (hynny yw, nid llythrennedd a rhifedd) ar gyfer mesurau perfformiad. Fodd bynnag **dim ond ar gyfer dysgwyr nad oes ganddynt y TGAU newydd cyfatebol hefyd y bydd y rhain yn cyfrif.**

**Cap ar gymwysterau nad ydynt yn TGAU o ran mesurau trothwy:**

O 2017 ymlaen, bydd uchafswm o 2 gymhwyster galwedigaethol yn cyfrif tuag at fesurau trothwy, yn ddibynnol ar faint y cymhwyster (hynny yw, ni chaiff fod yn fwy na 40% o'r trothwy). Yn y sgôr 'Cap 9' ar gyfer 2017, bydd yn bosibl i hyd at chwe chymhwyster i fod yn alwedigaethol (dau gymhwyster gwyddoniaeth a phedwar arall) yn dibynnu ar faint y cymhwyster.

| Blwyddyn | Canran y disgyblion a gyflawnodd y trothwy lefel 2 cynhwysol (gyda chap 40% ar di-TGAU ) (a) | Canran y disgyblion a gyflawnodd y trothwy lefel 2 cynhwysol (heb cap 40% ar di-TGAU ) (a) | Gwahaniaeth (pwyntiau canran) |
|---|---|---|---|
| 2016/17 | 54.6 | 54.7 | -0.1 |
| 2017/18 (p) | 55.1 | 55.2 | -0.1 |

(a) ac eithrio Llenyddiaeth Cymraeg / Saesneg fel rhan o'r elfen llythrennedd o'r trothwy lefel 2 cynwysedig

Er ein bod yn gallu mesur y gwahaniaeth ystadegol rhwng y ddau ddull, nid yw hyn yn gallu mesur yr effaith o newidiadau mewn ymddygiad disgyblion neu ysgol o gwmpas opsiynau cwricwlaidd a allai fod wedi deillio o'r cyfyngiadau yng nghymwysterau galwedigaethol.

**Sgiliau Hanfodol Cymru:**

Nid yw Sgiliau Hanfodol Cymru na Sgiliau Allweddol Ehangach bellach yn cyfrannu at fesurau Cyfnod Allweddol 4.

**Newidiadau o flynyddoedd blaenorol:**

Noder: o 2015/16 ymlaen, dechreuwyd adrodd ar berfformiad ysgol ar sail carfan Blwyddyn 11 yn hytrach na disgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn. Mae carfan Blwyddyn 11 yn seiliedig ar nifer y disgyblion a oedd wedi'u cofrestru ym Mlwyddyn 11 yr ysgol ar ddiwrnod cyfrifiad yr ysgol.

Cyn 2015/16, roedd y data yn seiliedig ar ysgolion prif ffrwd, ysgolion arbennig, ysgolion annibynnol ac Unedau Cyfeirio Ysgolion. Nid cynhwyswyd disgyblion a gafodd addysg heblaw am

yn yr ysgol (EOTAS) ond na aeth i Uned Cyfeirio Disgyblion. Mae'r data EOTAS ychwanegol hwn wedi'i gynnwys yn y broses baru ac felly maent wedi'u cynnwys yn ein canlyniadau o 2015/16 ymlaen.

Yn 2015/16, cyflwynwyd terfyn ar werth cyfraniad cymwysterau nad ydynt yn gymwysterau TGAU i fesurau perfformiad. Golyga hyn y bydd gan unrhyw gymhwyster unigol ar Lefel 1 neu Lefel 2 uchafswm cyfwerthedd, o ran perfformiad, o 2 TGAU, sy'n berthnasol i bob mesur.

Roedd yr ystadegau yn y datganiad hwn yn arfer cwmpasu pob ysgol a gynhelir ac ysgol annibynnol yng Nghymru. Ers 2015/16, mae ysgolion annibynnol wedi'u tynnu o ffigurau Cymru. Y rheswm am hyn yw bod data ond yn cael eu casglu ar gymwysterau a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion. Gall ysgolion annibynnol ddewis cymwysterau eraill nad ydynt wedi'u cymeradwyo, megis TGAU, ond nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn ein ffigurau. Yn ogystal, mae cyfranogiad o blith ysgolion annibynnol yn y prosesau gwirio data ysgolion a gynhelir ym mis Hydref a mis Tachwedd yn tueddu i fod yn isel.

O 2017 ymlaen, bydd uchafswm o 2 gymhwyster galwedigaethol yn cyfrif tuag at fesurau trothwy, yn ddibynnol ar faint y cymhwyster (hynny yw, ni chaiff fod yn fwy na 40% o'r trothwy). Dylwch gymerwyd ofal yn gwneud cymariaethau â pherfformiad cyn 2016/17.

## 4. Talgrynnu a symbolau

Mewn tablau, lle y mae ffigurau wedi'u talgrynnu i'r digid terfynol agosaf, gall fod anghysondeb ymddangosiadol rhwng yr eitemau cyfansoddol a'r cyfanswm a ddangosir.

Defnyddir y symbolau canlynol drwy'r cyhoeddiad:

(p) dros dro

- canrannau'n llai na 0.5 ond yn uwch na sero

. ddim yn gymwys

.. ddim ar gael

~ ddim ar gael eto

* mae'r ffigwr yn llai na 5, neu wedi'i seilio ar ffigwr sy'n llai na 5.

## 5. Gwybodaeth allweddol am ansawdd

Mae'r adran hon yn darparu crynodeb o wybodaeth am y cyhoeddiad hwn yn seiliedig ar bum dimensiwn ansawdd: Perthnasedd, Cywirdeb, Amseroldeb a Phrydlondeb, Hygyrchedd ac Eglurder, a Chymharedd. Mae hefyd yn ymdrin â materion penodol sy'n berthnasol i ansawdd data 2016, ac yn disgrifio'r erfyn rheoli ansawdd a ddefnyddir yn y maes gwaith hwn.

## 5.1 Perthnasedd

Caiff yr ystadegau eu defnyddio o fewn Llywodraeth Cymru a chan eraill er mwyn monitro tueddiadau addysgol ac fel sylfaen i waith dadansoddi pellach ar y data gwaelodol. Defnyddir yr ystadegau hyn gan y canlynol, ymysg eraill:

- Gweinidogion a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru;
- Estyn;
- Adrannau eraill y llywodraeth;
- Y gymuned ymchwil;
- Consortia addysg, Awdurdodau Lleol ac ysgolion;
- Myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion;
- Dinasyddion unigol, cwmnïau preifat a'r cyfryngau.

Defnyddir yr ystadegau hyn mewn nifer o ffyrdd. Dyma rai enghreifftiau:

- I fonitro strategaethau addysg fel *Ailysgrifennu'r dyfodol*, a strategaethau polisi ehangach fel y *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi*;
- Cefndir cyffredinol ac ymchwil;
- Eu cynnwys mewn adroddiadau a dogfennau briffio;
- Cyngor i Weinidogion;
- Pecynnau data craidd addysg Cymru gyfan;
- At ddibenion cymharu â meincnodi Awdurdodau Lleol ac ysgolion;
- Llywio'r broses o benderfynu ar bolisïau addysg yng Nghymru, gan gynnwys ad-drefnu ysgolion;
- System Categoreiddio Ysgolion;
- Cynorthwyo ESTYN yn ystod arolygiadau ysgolion;
- Ar gyfer y maes addysg ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru;
- I gynorthwyo gydag ymchwil i gyrhaeddiad addysgol.

## 5.2 Cywirdeb

Mae ysgolion ac awdurdodau lleol nawr wedi cael cyfle i wirio'r data dros dro ac wedi darparu gwybodaeth newydd os lle'n briodol. Fel blynyddoedd cynt mae'r newid rhwng y data dros dro a'r data terfynol yn llai na un pwynt canran ar gyfer pob dangosydd,.

## 5.3 Amseroldeb a Phrydlondeb

Mae'r data yn berthnasol i bob cymhwyster a gyflawnwyd rhwng 1 Medi 2016 a 31 Awst 2017. Mae'r data nawr yn cynnwys unrhyw raddau newydd o ganlyniad i ail-farcio, ail-eistedd neu

arholiadau ar goll, lle darparir y dystiolaeth gan yr ysgolion o fewn y cyfnod amser cywir neu darparir yn uniongyrchol o'r byrddau dyfarnu.

### 5.4 Hygyrchedd ac Eglurder

Rhoddir rhybudd ymlaen llaw am y Datganiad Ystadegol Cyntaf hwn ac yna ei gyhoeddi yn yr adran Ystadegau ar wefan Llywodraeth Cymru. Ceir mwy o dablau manwl perthnasol ar wefan StatsCymru , sy'n wasanaeth rhad ac am ddim sy'n caniatáu i ddefnyddwyr weld, addasu, creu a lawrlwytho data.

Ceir data lefel ysgol ar wefan Fy Ysgol Leol (My Local School). Ni fydd y data dros dro hyn yn cael eu hychwanegu i'r wefan ond bydd data terfynol 2016/17 yn cael eu hychwanegu ym mis Ionawr 2018.

### 5.5 Cymharedd a chydlyniaeth

Yn dilyn Adolygiad Wolf o Gymwysterau Galwedigaethol yn Lloegr, diwygio TGAU yn Lloegr a newidiadau arall a gyflwynwyd gan yr Adran Addysg yn Lloegr, **nid yw data cyrhaeddiad CA4 Cymru a Lloegr ar sail gyson**. Y prif wahaniaethau yw:

- Mae data ar gyfer Lloegr yn cyfyngu maint cymwysterau galwedigaethol i gyfanswm o un cymhwyster TGAU. Ers 2015/16, mae data ar gyfer Cymru bellach yn cyfyngu ar faint cymwysterau galwedigaethol i uchafswm o 2015 TGAU, yn dilyn yr argymhelliad yn yr Adolygiad o Gymwysterau. Cyn hyn, nid oedd cyfyngiad ar faint cymwysterau galwedigaethol, gyda nifer ohonynt yn gyfwerth â 4 TGAU.
- Mae data ar gyfer Lloegr ond yn fodlon i'r cais cyntaf mewn unrhyw arholiad i gyfri, dim ots beth yw'r radd. Defnyddir y radd orau yng Nghymru.
- Mae Lloegr wedi newid y ffordd y maent yn diystyru cymwysterau fel nad oes modd i gymwysterau cyffredinol a galwedigaethol tebyg gael eu cyfri yn eu hystadegau. Nid yw'r cyfyngiad hwn yn bodoli yng Nghymru.

Ceir rhagor o wybodaeth am fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 yng Nghymru, a'u cymaroldeb, yn ein erthygl ystadegol.

Ceir gwybodaeth am ddiwygio TGAU yn Lloegr yma [Saesneg yn unig], yn ogystal a Adolygiad Wolf o Gymwysterau Galwedigaethol

Ceir rhagor o wybodaeth am Adolygiad Wolf o Gymwysterau Galwedigaethol yn y datganiad ystadegol [Saesneg yn unig]: GCSE and Equivalent Results in England 2013/14 (Revised)

Yng Nghymru, mae argymhellion yr Adolygiad o Gymwysterau bellach mewn grym, gan ddechrau o flwyddyn academaidd 2015/16. Mae hyn yn golygu y bydd y ffordd yr ydym yn cyfrifo ein mesurau perfformiad yn newid. Bydd hyn yn effeithio ar gymhared dros amser, ac yn cyfyngu ymhellach ar ein gallu i gymharu cyrhaeddiad addysgol yng Nghymru gyda gweddill y DU. Ceir gwybodaeth am yr adolygiad o gymwysterau yng Nghymru yma: Adolygiad o Gymwysterau

## Rydym am gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Anfonwch eich sylwadau drwy e-bost i ystadegau.ysgolion@llyw.cymru.

## Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r cynnwys cyfan ar gael o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0, ac eithrio lle nodir fel arall.